# Y Trefniadau Monitro Mynediad i Addysg Uwch

Mai 2025

# Cynnwys


**Cyflwyniad .......... 1**

**Dull QAA o sicrhau cydymffurfiad a rheoli risgiau .......... 2**

Beirniadaethau rheoleiddio .......... 3

Atebolrwydd a gwneud penderfyniadau .......... 4

- Y cyd-destun rheoleiddiol a'r cylch gwaith .......... 4
- Y cynllun dirprwyo a'r trefniadau llywodraethu .......... 4

Apeliadau a chwynion .......... 4

Y ffioedd a'r costau sy'n daladwy am weithgareddau monitro .......... 5

- Y ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu .......... 5

**Trwyddedu ac adnewyddu Trwydded .......... 5**

**Monitro cyffredinol .......... 6**

Monitro blynyddol ac adroddiad data .......... 6

Digwyddiadau hysbysadwy .......... 6

Cymryd rhan mewn cynlluniau peilot ac ymarferion casglu gwybodaeth .......... 7

Gwybodaeth a data eraill .......... 7

- Y Cynllun Pryderon Mynediad i AU .......... 7

**Gweithgareddau monitro manylach .......... 8**

Ymchwiliad .......... 8

- Casglu gwybodaeth .......... 8
- Yr asesiad a'i ganlyniadau .......... 8

**Ymyriadau .......... 9**

Hysbysiad ffurfiol .......... 9

Amod penodol .......... 10

Sancsiwn ffurfiol .......... 10

- Rhoi cyfyngiad ar Drwydded .......... 11
- Atal Trwydded .......... 11
- Tynnu Trwydded yn ei hôl .......... 12

Monitro ymyriadau .......... 12

# Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ('QAA') yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i'r Diploma. Mae QAA hefyd yn cofrestru ac yn cynnal nod masnach y logo Mynediad i AU a nod masnach y geiriau Mynediad i AU (yr enw arnynt oll ar y cyd yw'r 'nodau masnach Mynediad i AU'), sef y nodau masnach sy'n gysylltiedig â'r Diploma.

2 I gynnal a chadw'r dulliau a ddefnyddir gan y llywodraethau i gydnabod y Diploma at ddiben cyllido, mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU (y 'Cynllun Cydnabod'). Mae'r term 'Cynllun Cydnabod' yn cyfeirio at drefniadau QAA ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith o ofynion sydd wedi eu nodi mewn dogfennau penodol a ddefnyddir gan QAA i ddyfarnu trwydded (y 'Drwydded') i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') sy'n caniatáu iddynt ddatblygu, dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu.

3 Bydd QAA yn dyfarnu Trwydded i Asiantaeth DMiAU, ac yn caniatáu iddi ei chadw at y dibenion hyn, ar yr amod ei bod yn cytuno i lynu at ofynion QAA mewn perthynas â'r Diploma, fel y maen nhw wedi eu nodi yn y dogfennau a ganlyn sy'n ffurfio'r Cynllun Cydnabod:

3.1 **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch** (y 'Telerau') sy'n nodi'r telerau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw ei Thrwydded.

3.2 **Yr Amodau Mynediad i AU** (yr 'Amodau'), sef y goblygiadau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU eu cyflawni (neu ddangos ei bod yn gallu eu cyflawni) er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a pharhau i gadw ei Thrwydded.

4 Mae'r Telerau a'r Amodau'n esbonio'n glir beth yw gofynion parhaus QAA ar gyfer dyfarnu Trwydded. Mae'r Amodau'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion, disgwyliadau a threfniadau sydd wedi eu nodi mewn dogfennau eraill. Mae hyn yn cynnwys trefniadau trwyddedu a monitro (y 'Trefniadau Monitro'), y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, *Manyleb y Diploma Mynediad i AU* a'r Disgrifwyr Pwnc. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol y gallai QAA eu cyflwyno sy'n nodi rhagor o wybodaeth am y dull y gallai QAA ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiad ag amod penodol, neu i helpu Asiantaethau DMiAU i ddehongli'r gofynion.

5 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r Trefniadau Monitro - sef y trefniadau sydd gan QAA i fonitro ac asesu cydymffurfiad Asiantaethau DMiAU â'r Telerau, yr Amodau a'r Cynllun Cydnabod. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae beirniadaethau rheoleiddio'n cael eu gwneud, ac am yr amrywiol weithgareddau - gweithgareddau arferol (monitro cyffredinol) a hefyd rai eithriadol (monitro manylach) - a'r mathau o wybodaeth yr ydym yn debygol o wneud beirniadaethau amdanynt ynghylch cydymffurfiad. Mae Amod B3 yn yr Amodau'n nodi'n glir bod gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gydymffurfio â gofynion gweithgareddau monitro, yn ôl cyfarwyddyd QAA, sydd wedi eu disgrifio yn y ddogfen hon.

## Dull QAA o sicrhau cydymffurfiad a rheoli risgiau

6 Er mwyn sicrhau bod Asiantaethau DMiAU yn gallu bodloni Telerau ac Amodau eu Trwydded, mae QAA yn gyfrifol am wneud asesiadau sy'n rhoi sicrwydd bod Diplomâu'n cael eu dilysu, eu darparu a'u dyfarnu mewn ffordd sy'n gyson â gofynion ei Chynllun Cydnabod. Gwneir y gwaith rheoleiddio hwn i ddiogelu ansawdd, safonau ac enw da'r Diploma ac i sicrhau y bydd yn parhau i fod yn llwyddiannus.

7 Asesir cydymffurfiad ar sail amryw ffynonellau o wybodaeth a gesglir yn bennaf drwy drefniadau rhagnodedig sy'n gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gyflwyno darnau penodol o wybodaeth i QAA o dan amgylchiadau penodol. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd hynny lle ceir trefniadau rheolaidd a disgwyliadwy i ddarparu gwybodaeth, er enghraifft, adroddiadau data blynyddol neu brosesau ail-drwyddedu. Neu, pan fydd angen darparu gwybodaeth o ganlyniad i ddigwyddiad penodol neu risg amlwg o ddiffyg cydymffurfiad, er enghraifft, digwyddiadau hysbysadwy neu ymchwiliadau. Weithiau hefyd bydd QAA yn derbyn gwybodaeth am Asiantaeth DMiAU yn anuniongyrchol, er enghraifft, o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu o'n Cynllun Pryderon. Ymhob un o'r sefyllfaoedd hyn, bydd QAA yn ymdrechu i asesu'r wybodaeth hon yn erbyn y gofynion sydd wedi eu disgrifio yn y Cynllun Cydnabod.

8 Mae rhagor o fanylion i'w cael isod yn y ddogfen hon am y gwahanol fathau o fonitro a wneir mewn perthynas â'r Cynllun Cydnabod. Y nod bob tro wrth asesu gwybodaeth a geir drwy weithgareddau monitro yw penderfynu:

- a oes tystiolaeth o risg uwch nad yw Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio â Thelerau ac/neu Amodau ei Thrwydded neu ofynion eraill y Cynllun Cydnabod; ac
- a oes tystiolaeth i ddangos nad yw Asiantaeth DMiAU wedi cydymffurfio, neu nad yw'n gallu cydymffurfio â Thelerau ac/neu Amodau ei Thrwydded neu ofynion eraill y Cynllun Cydnabod.

9 Bydd QAA yn defnyddio ei threfniadau monitro cyffredinol i ganfod meysydd lle mae diffyg cydymffurfiad neu risg o ddiffyg cydymffurfiad â'i gofynion, ac, felly, lle mae'n bosibl y bydd angen gwneud gweithgareddau monitro manylach neu ymyriadau. Os bydd gweithgareddau monitro cyffredinol yn dangos bod angen, neu efallai y bydd angen, cymryd camau pellach, bydd QAA yn ceisio defnyddio'r trefniadau monitro manylach ac ymyriadau sydd ar gael iddi (gwelwch isod) ac yn penderfynu sut y dylid defnyddio'r rhain yn ôl yr achos unigol. Bydd QAA yn blaenoriaethu ymgysylltu â'r Asiantaeth DMiAU yn y lle cyntaf i geisio cael rhagor o wybodaeth i'w defnyddio i hysbysu ei beirniadaethau ynglŷn â chydymffurfiad a gweithgareddau rheoleiddio pellach.

10 Arweinir dull QAA o asesu a sicrhau cydymffurfiad gan egwyddorion sylfaenol ei dull rheoleiddio sydd wedi eu nodi yng nghymal 5 yr *Amodau Mynediad i AU*. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi beth mae QAA yn bwriadu ei gyflawni yn ei gwaith o reoleiddio'r Diploma. Dyma'r egwyddorion hyn:

- Cynnal dilysrwydd y Diploma
- Cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn
- Sicrhau bod y Diploma'n parhau'n berthnasol a chefnogi ei dyfiant

11 Yn ogystal, mae dull QAA yn ceisio rhoi pwyslais ar ganlyniadau'r Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â chydymffurfiad gyda'r gofynion. O ganlyniad, os nad oes manylion penodol i'w cael am y ffordd neu'r dull o sicrhau cydymffurfiad â gofyniad penodol, byddai QAA yn disgwyl i'r Asiantaeth DMiAU gyflawni hyn mewn ffordd sy'n briodol i gyd-destun gweithredol y sefydliad ar yr amod bod y canlyniad yn cydymffurfio â'r gofyniad. Mae'r canllawiau perthnasol yn cynnwys esiamplau o ba ymddygiad y byddai QAA yn ei ystyried yn ymddygiad sy'n cydymffurfio â phob un o'r amodau a pha ymddygiad sydd ddim.

12 Os bydd QAA yn penderfynu bod angen cymryd camau pellach neu wneud ymyriad, bydd yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ei gweithgareddau monitro ac ymgysylltiad yr asiantaeth DMiAU i'w helpu i benderfynu ar y dull gweithredu mwyaf priodol. Wrth wneud hynny, bydd QAA yn gwneud yn siŵr bod ei hymateb yn gymesur â'r risg y mae'n ceisio ei leihau, ac yn berthnasol iddo, a bydd yn sicrhau bod ei harferion:

**wedi eu blaenoriaethu** - h.y. yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster, ac wedi'u tywys gan egwyddorion ein dull rheoleiddio.

**yn gymesur** - h.y. yn cymryd camau sy'n gymesur â lefel risg a llymder yr achos o ddiffyg cydymffurfiad a chymryd i ystyriaeth y camau a gymerir gan yr Asiantaeth DMiAU i leihau risgiau a'r effeithiau ar y myfyrwyr.

**wedi eu targedu** - h.y. yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau arbennig sy'n codi, fel y maent yn berthnasol i gylch gwaith a gofynion QAA.

**yn eglur** - bydd QAA yn esbonio'n glir i'r Asiantaeth DMiAU beth yw'r broses o wneud ymyriad, gan gynnwys y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd a'r rhesymau dros wneud hynny. Lle bo'n briodol, bydd QAA yn cynnwys manylion yr ymyriad rheoleiddio ym mhroffil yr Asiantaeth DMiAU ar wefan QAA. Bydd hyn yn cynnwys rhoi esboniad o'r rhesymau am wneud yr ymyriad, ac am y camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd.

**yn atebol** - bydd QAA yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddi, ac am eu hesbonio i'r Asiantaethau DMiAU perthnasol, a rhanddeiliaid eraill, fel y bo'n briodol.

## Beirniadaethau rheoleiddio

13 Os gwneir penderfyniad ffurfiol neu feirniadaeth am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU a'r angen dilynol am ymyriad o ganlyniad i weithgareddau monitro, gwneir penderfyniadau o'r fath yn unol â Chynllun Awdurdodau Dirprwyedig QAA (gwelwch isod).

14 I hyrwyddo safonau ac eglurder yn ein gwaith rheoleiddio er budd holl randdeiliaid y Diploma, bydd QAA yn cyhoeddi darnau penodol o wybodaeth am ei beirniadaethau ynghylch Asiantaethau DMiAU ar ei gwefan. Yr unig bryd y cyhoeddir gwybodaeth am feirniadaethau rheoleiddio yw pan fydd:

- Asiantaeth DMiAU yn atebol i drefniadau monitro ac ymchwilio manylach mewn perthynas ag amodau penodol.
- QAA wedi trefnu ymyriad ar gyfer Asiantaeth DMiAU yn dilyn asesiad o'i chydymffurfiad.

15 Mewn unrhyw sefyllfa fel hyn, bydd QAA yn cyhoeddi manylion am:

- natur y gweithgareddau neu'r ymyriadau;
- yr amod(au) perthnasol;
- crynodeb o'r rhesymau am y gweithgareddau neu'r ymyriadau; a
- lle bo'n berthnasol, grynodeb o'r camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd.

16 Mewn achosion eithriadol, gall QAA benderfynu nad yw'n briodol cyhoeddi rhai darnau o'r wybodaeth hon, yn arbennig, manylion y rheswm am ymyriad penodol neu'r camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd. Gwneir penderfyniad fel hyn pan mae'r canlyniadau'n dibynnu ar gyfiawnder naturiol neu broses arall lle na fyddai'n briodol i'r wybodaeth sy'n ymwneud â hi fod ar gael i'r cyhoedd.

## Atebolrwydd a gwneud penderfyniadau

### Y cyd-destun rheoleiddiol a'r cylch gwaith

17 Nid oes sylfaen statudol i waith QAA o reoleiddio'r Diploma. Mae QAA wedi bod yn gyfrifol am reoleiddio'r cymhwyster ers 1997 pan drosglwyddwyd swyddogaethau'r Cyngor Ansawdd Addysg Uwch iddi.

18 Mae nodau elusennol QAA yn cynnwys rhoi cyngor i'r llywodraethau, os gofynnir amdano, ynglŷn â chydnabyddiaeth i'r Diploma. Mae hyn yn golygu mai dim ond y cyrsiau hynny sy'n atebol i'n trefniadau rheoleiddio fydd yn cael eu cydnabod gan y llywodraethau at ddibenion sicrhau cyllid, lle bo'n berthnasol. Hefyd, rydym yn diogelu'r cymhwyster drwy gofrestru a chadw nifer o nodau masnach, sef y nodau masnach Mynediad i AU. Mae'r swyddogaethau a'r amcanion hyn yn ffurfio'r sylfaen i gwmpas awdurdod QAA wrth reoleiddio'r Diploma.

19 Y Cynllun Cydnabod yw'r fframwaith o reoliadau a threfniadau a ddefnyddir gan QAA i gyflawni ei chyfrifoldeb am y Diploma, y mae'n rhoi'r Drwydded i Asiantaethau DMiAU eu dilysu a'u cymeradwyo.

### Y cynllun dirprwyo a'r trefniadau llywodraethu

20 Ar ysgwyddau ei Bwrdd Cyfarwyddwyr y mae'r cyfrifoldeb pennaf am waith QAA, gan gynnwys y cyfrifoldeb am unrhyw waith neu benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Cydnabod yn gweithredu'n effeithiol, mae Bwrdd QAA yn dirprwyo ei awdurdod i wneud penderfyniadau i gyrff neu unigolion perthnasol, yn ôl Cynllun Awdurdodau Dirprwyedig QAA. Defnyddir y trefniadau monitro ac ymgysylltu manylach a'r ymyriadau rheoleiddio yn unol â gofynion trefniadau llywodraethu mewnol QAA ei hun.

21 Ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â dyfarnu Trwydded Asiantaeth DMiAU newydd neu dynnu Trwydded gyfredol yn ei hôl, mae Bwrdd QAA yn gwneud ei benderfyniad ar sail argymhelliad un o'i is-bwyllgorau, sef y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU). Felly, pan fydd unrhyw benderfyniad yn effeithio ar *ddyfarnu Trwydded* neu *dynnu Trwydded yn ei hôl*, rhaid i'r Pwyllgor RhThrMiAU wneud argymhelliad i Fwrdd QAA. Mae Bwrdd QAA yn dirprwyo unrhyw benderfyniadau am risg, monitro ac ymyriad, sy'n berthnasol i weithrediad Trwydded, i Dîm Gweithredol a Swyddogion QAA.

## Apeliadau a chwynion

22 Mae QAA yn gwahaniaethu rhwng apeliadau a chwynion. Mae apeliadau'n heriau penodol i feirniadaethau a wnaed o ganlyniad i argymhelliad i Fwrdd QAA.

23 Mae modd i Asiantaeth DMiAU (neu sefydliad sydd wedi gwneud cais am fod yn Asiantaeth DMiAU) apelio yn erbyn argymhelliad a wnaed i Fwrdd QAA gan ddilyn y drefn apelio briodol:

- y dylid gwrthod rhoi Trwydded Asiantaeth DMiAU,
- y dylid tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, neu
- ynglŷn â chyfnod dilysrwydd Trwydded Asiantaeth DMiAU

24 Ym marn QAA, pan fydd rhywun yn cwyno maent yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwn neu bethau a wnawn. Os na fydd Asiantaeth DMiAU yn fodlon â chanlyniad unrhyw weithred neu feirniadaeth a wneir gan QAA mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau nad ydynt wedi eu rhestru uchod, y dull gweithredu cywir yw dilyn trefn gwyno QAA. Cam cyntaf y broses hon yw bod Asiantaethau DMiAU yn cysylltu i ddechrau â'r Swyddog y maent wedi bod yn gweithio ag o/â hi i geisio datrys y mater. Felly, os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau ynglŷn â'r prosesau o fonitro Asiantaethau DMiAU, anfonwch e-bost at ahe@qaa.ac.uk yn y lle cyntaf os gwelwch yn dda.

## Y ffioedd a'r costau sy'n daladwy am weithgareddau monitro

25 Mae Cymal 13.7 y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU* yn nodi bod yr Asiantaeth DMiAU yn cytuno i "dalu ffi flynyddol benodol y mae QAA wedi ei phennu i gyfrannu at gostau cynnal a datblygu'r Cynllun Cydnabod." Diben y ffi gyfrannol hon yw sicrhau y gall QAA weithredu a chyflawni ei chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Diploma Mynediad i AU, yn cynnwys y gwaith cyffredinol o fonitro ac ail-drwyddedu Asiantaethau DMiAU cyfredol. Mae'r canllawiau'n esbonio sut mae'r ffi hon yn cael ei chyfrifo. Rhoddir gwybod mewn ysgrifen i Asiantaethau DMiAU unigol faint yw eu ffi bob blwyddyn wedi i gyllideb QAA gael ei chadarnhau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

26 O dan y Telerau, efallai y bydd gofyn i'r Asiantaeth DMiAU dalu ffioedd ychwanegol am unrhyw weithgareddau nad ydynt yn rhan o'r prosesau cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU. Bydd y ffioedd am weithgareddau monitro'n cael eu hamcanrifo ar sail amcangyfrif o'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith perthnasol ar gyfer ymchwiliadau monitro manylach, ac ar gyfer gwneud ymyriadau wedyn os penderfynir bod hynny'n angenrheidiol. Gall y cyfrifiadau hyn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod amlwg achos penodol, neu risg sy'n gysylltiedig â'r achos hwnnw, a allai effeithio ar yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae'n debygol y bydd y ffioedd yn cynyddu'n flynyddol i gyfateb â chwyddiant.

27 Pan fydd hyn yn berthnasol i Asiantaeth DMiAU sy'n mynd i gael ei monitro'n fanylach (ymchwiliad) neu sy'n mynd i gael ymyriad, rhoddir rhestr o'r ffioedd a amcangyfrifir yn glir mewn unrhyw ohebiaeth a anfonir at yr Asiantaeth DMiAU i roi gwybod iddi am y gwaith. Bydd y taliad yn ddyledus pan dderbynnir anfoneb gan QAA wedi iddi gwblhau'r gwaith.

### Y ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu

28 Dim ond ar gyfer ceisiadau am Drwydded newydd y mae ffioedd asesu cais am Drwydded yn daladwy. Nid yw Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais am adnewyddu eu Trwydded yn atebol i dalu ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn.

# Trwyddedu ac adnewyddu Trwydded

29 Mae ceisiadau am Drwyddedau newydd a Thrwyddedau wedi'i hadnewyddu yn ffynhonnell sylweddol o'r wybodaeth a gasglwn yn barhaus am Asiantaethau DMiAU, ac mae hyn yn rhoi cyfle i QAA asesu, mewn ffordd gyfannol, allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio â'n gofynion.

30 Gallai beirniadaethau a wneir ac a argymhellir ar adeg y trwyddedu gael eu defnyddio i hysbysu gwaith monitro parhaus yn y ffyrdd a ganlyn:

- I benderfynu faint fydd hyd cyfnod dilysrwydd y Drwydded a pha mor aml y cynhelir asesiadau ail-drwyddedu yn y dyfodol.
- I benderfynu a ddylid gwneud ymyriadau ar adeg y dyfarnu os gwelir bod angen i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol er mwyn lleihau'r risg na fydd yn gallu cydymffurfio â gofynion y Drwydded. Er enghraifft, hysbysiad ffurfiol neu amod penodol.

31 Mae'r *Trefniadau Trwyddedu Mynediad i AU* yn cynnwys canllawiau manwl ar wahân am Drwydded Asiantaethau DMiAU.

# Monitro cyffredinol

32 Diffinnir monitro cyffredinol yn fras fel gweithgareddau monitro sy'n rhagweladwy, wedi'u cynllunio neu na chânt eu gwneud ar sail asesiad risg.

33 Yn achlysurol, efallai y bydd y wybodaeth yr ydym yn ei derbyn a'i hasesu yn ystod y broses fonitro gyffredinol yn tynnu sylw at bryderon am allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio â gofynion ei Thrwydded, neu'n dangos bod angen i ni dderbyn rhagor o wybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cydymffurfio. Yn y sefyllfa hon, ceisir rhagor o ymgysylltiad â'r Asiantaeth DMiAU ac, os oes digon o reswm i bryderu, efallai y penderfynir cychwyn prosesau monitro manylach neu wneud ymyriad.

34 Mae'r mathau o fonitro cyffredinol a wneir wedi eu disgrifio isod.

## Monitro blynyddol ac adroddiad data

35 Disgwylir i Asiantaethau DMiAU gymryd rhan mewn cylchred monitro blynyddol. Diben y monitro blynyddol yw:

- rhoi sicrwydd i QAA bod Asiantaethau DMiAU yn parhau i fodloni gofynion y Cynllun Cydnabod yn ystod cyfnod dilysrwydd eu Trwydded; a
- rhoi'r wybodaeth ofynnol i QAA am gyrsiau Mynediad i AU, y myfyrwyr a'u cynnydd er mwyn cefnogi ei goruchwyliaeth strategol ar y cymhwyster a sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei nodau elusennol o roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r Diploma.

36 Darperir hysbysiad ysgrifenedig am bob achos o fonitro a fydd yn nodi manylion y math o ddata sydd i gael ei sicrhau, amseriadau'r monitro a'r cyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno unrhyw wybodaeth angenrheidiol. Lle bo modd, bydd QAA yn ceisio sicrhau y cedwir nifer y pwyntiau monitro bob blwyddyn mor fach ag y bo modd. Fel arfer, ar gyfer y monitro blynyddol, bydd QAA yn gofyn am gael derbyn y wybodaeth a ganlyn:

- Datganiad blynyddol am gydymffurfiad, fel y mae'n ofynnol yn ôl Amod A2.3.
- Datganiad blynyddol am hyfywedd ariannol sy'n ymwneud â chyfnod o ddwy flynedd academaidd, a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio a'u llofnodi ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sy'n darparu tystiolaeth i ddangos bod yr Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio ag Amod A3.
- Data am nodweddion, cofrestriad a deilliannau'r myfyrwyr oedd wedi eu cofrestru ar gyrsiau Diploma yn y flwyddyn flaenorol.
- Data am gynnydd y myfyrwyr oedd wedi eu cofrestru ar gyrsiau Diploma yn y flwyddyn flaenorol.

## Digwyddiadau hysbysadwy

37 Fel y mae wedi ei nodi yn Amod B1, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy sydd, yn ei barn resymol hi, wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Digwyddiad hysbysadwy yw unrhyw ddigwyddiad gwirioneddol neu bosibl sydd, ym marn resymol QAA, yn cael, neu a allai gael, effaith negyddol ar allu'r Asiantaeth DMiAU i fodloni Telerau ei Thrwydded neu gydymffurfio â'r Amodau.

38 Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae QAA yn ei ddisgwyl gan Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy i'w chael yn y canllawiau.

## Cymryd rhan mewn cynlluniau peilot ac ymarferion casglu gwybodaeth

39 O bryd i'w gilydd, gall QAA ofyn am gymorth Asiantaethau DMiAU gyda mentrau penodol y byddai casglu data penodol ar eu cyfer yn ddefnyddiol neu'n angenrheidiol, a gall weithiau orfodi DMiAU i gymryd rhan ynddynt, a gallai hynny fod yn amodol ar roi gwybod o dan Amod B2, neu ar gais o dan Amod B4.

40 Er enghraifft, gallai'r gweithgareddau monitro gynnwys y canlynol ymysg pethau eraill:

- Cyflwyno adborth a data yn rhan o fentrau rhaglen beilot, er enghraifft ar gyfer Disgrifydd Pwnc newydd.
- Casglu gwybodaeth am gyrsiau penodol. Er enghraifft, ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â chynnydd myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau Diploma a luniwyd ar gyfer symud ymlaen i astudio Meddygaeth - gwybodaeth y gellir ei rhannu â sefydliadau partner i gefnogi mynediadau i addysg uwch.
- Casglu gwybodaeth ychwanegol ar sail themâu sy'n dod i'r amlwg o ddata eraill a gyflwynir yn rheolaidd. Er enghraifft, pan fydd newidiadau amlwg ym mhroffil demograffig y corff myfyrwyr dros amser.

## Gwybodaeth a data eraill

41 Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth neu ddata y mae QAA yn eu derbyn neu'n dod yn ymwybodol ohonynt drwy weithredu'r Cynllun Cydnabod sy'n ei harwain at ddod i'r casgliad nad yw un o'r Asiantaethau DMiAU o bosib yn cydymffurfio â'r Telerau a gofynion ei Thrwydded.

### Y Cynllun Pryderon Mynediad i AU

42 Mae'r *Cynllun Pryderon Mynediad i AU* yn rhoi cyfle i fyfyrwyr, staff a phartïon eraill godi pryderon am y canlynol:

- y ffordd y mae cwrs Mynediad i AU penodol yn cael ei ddarparu a'i reoli;
- y ffordd y mae Asiantaeth DMiAU yn cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma Mynediad i AU; neu
- y ffordd y mae Asiantaeth DMiAU yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU.

43 Bydd y pryderon yn gymwys i gael eu hymchwilio gan QAA unwaith y bydd yr unigolyn sy'n cyflwyno eu pryder wedi dilyn yr holl weithdrefnau cyhoeddedig ac heb dderbyn datrysiad boddhaol gan y Darparwr (os yw hyn yn berthnasol) a'r Asiantaeth DMiAU. Nid oes ffi am gyflwyniad o dan y Cynllun Pryderon.

44 Os canfyddir, o ganlyniad i ymchwiliad a wneir o dan y Cynllun Pryderon, ddiffyg cydymffurfiad neu risg o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau Trwydded yr Asiantaeth DMiAU a gofynion y Cynllun Cydnabod, gallai hyn arwain at ymchwiliad pellach neu ymyriad. Pan fydd y pryder yn arbennig o ddifrifol neu gymhleth, gallai QAA benderfynu cychwyn ymchwiliad o dan brosesau monitro manylach sy'n gyfatebol â'r Pryder.

# Gweithgareddau monitro manylach

## Ymchwiliad

45 At ddibenion QAA wrth iddi fonitro cydymffurfiad Asiantaethau DMiAU â'r Cynllun Cydnabod, mae ymchwiliad yn fath o fonitro manylach anarferol. Gallai QAA gychwyn ymchwiliad os bydd yn canfod y canlynol drwy ei gweithgareddau monitro eraill:

- risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad posibl â'r Telerau neu un neu fwy o'r Amodau; neu
- achosion gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfiad â'r Telerau neu'r Amodau.

46 Gall y Rheolwr Mynediad i AU neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio wneud y penderfyniad i gychwyn ymchwiliad. Dyrennir prif swyddog achos i'r ymchwiliad (gall hwn neu hon fod mewn unrhyw un o'r ddwy rôl sydd wedi eu henwi uchod, neu gall fod yn unrhyw aelod arall o staff QAA) a rhoddir gwybod mewn ysgrifen i'r Asiantaeth DMiAU am yr ymchwiliad. Fel arfer, bydd y llythyr hwn yn amlinellu'r canlynol:

- y pryder/pryderon a nodwyd, yn cynnwys cwmpas a rhesymeg yr ymchwiliad;
- manylion unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani neu ymholiadau gan y swyddog achos mewn perthynas â'r ymchwiliad;
- gwahoddiad i ymgysylltu ymhellach â QAA; a
- brasamcan o'r ffioedd yn eu trefn

47 Cydnabyddir bod cwrs ymchwiliad a'r amseriadau dilynol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau gan gynnwys natur y materion sydd i dderbyn sylw. O ganlyniad, gall yr amseriad y disgwylir i'r broses ddod i ben amrywio. Fodd bynnag, os nad yw'r canlyniad yn ddibynnol ar wybodaeth allweddol sy'n dibynnu ar ddigwyddiad yn y dyfodol, byddem yn disgwyl i ymchwiliad gymryd tua 12 wythnos. Bydd QAA yn cadarnhau unrhyw newidiadau i'r amseriadau arfaethedig yn ei gohebiaeth i'r Asiantaeth DMiAU.

48 Oni bai y rhoddir gwybod iddi fel arall am berson priodol amgen sy'n ddigon uchel ei lefel, bydd QAA yn cymryd yn ganiataol mai'r Swyddog Cyfrifol yw'r prif gyswllt i gyfathrebu ag o/i ynglŷn â'r ymchwiliad. Gallai person amgen addas gynnwys Pennaeth Mynediad i AU, er enghraifft, pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn gallu rhoi cyfiawnhad rhesymol am hyn.

### Casglu gwybodaeth

49 Bydd QAA yn disgwyl ymgysylltu â'r Asiantaeth DMiAU i sicrhau bod gan y swyddogion yr holl wybodaeth angenrheidiol y gofynnir amdani i wneud asesiad llawn o'r pryderon sydd dan sylw. Fel arfer, cesglir y wybodaeth drwy gyfrwng cyfarfod, galwad ffôn, mewn e-bost neu drwy ohebiaeth. Oni bai bod yn rhaid gwneud yn wahanol neu y cytunir yn wahanol, ac er mwyn rheoli costau i bob sefydliad, gwneir ymchwiliadau o bell, drwy asesiad pen desg a wneir yn bennaf gan y swyddog achos QAA enwebedig.

50 Yn unol â'r Telerau a'r Amodau, disgwylir y bydd Asiantaethau DMiAU yn cydweithredu'n llawn â phob cais rhesymol am wybodaeth.

### Yr asesiad a'i ganlyniadau

51 Bydd y swyddog achos enwebedig yn gwneud asesiad pen desg o'r dystiolaeth sydd ar gael ac yn cynhyrchu adroddiad ymchwilio sy'n cynnwys:

- crynodeb o gefndir a chwmpas yr ymchwiliad ar sail y pryderon sydd gan QAA mewn perthynas â gofynion penodol y Cynllun Cydnabod;

- asesiad o'r dystiolaeth yn erbyn gofynion y Cynllun Cydnabod sydd dan sylw;
- argymhellion a chanlyniadau; a
- thabl o dystiolaeth, gan atodi gwybodaeth berthnasol bellach lle bo angen.

52 Mae canlyniadau posibl y broses ymchwilio'n cynnwys y canlynol:

- Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach - yn dilyn adolygu'r dystiolaeth ni chafwyd hyd i unrhyw ddiffyg cydymffurfiad neu risg gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfiad ac nid oes angen i'r Asiantaeth DMiAU gymryd unrhyw gamau pellach;
- Argymhellir ymyrryd - hysbysiad ffurfiol;
- Argymhellir ymyrryd - amod penodol; neu
- Argymhellir ymyrryd - sancsiwn ffurfiol.

53 Ymhob achos, bydd angen i argymhellion y swyddog achos gael cymeradwyaeth gan y Rheolwr Mynediad i Addysg Uwch a/neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio yn QAA. Os bydd yr ymyriad a argymhellir yn sancsiwn ffurfiol sy'n effeithio ar ddyfarnu'r Drwydded (gwelwch isod), bydd angen rhoi argymhellion i'r person priodol sy'n gwneud y penderfyniadau er mwyn cael penderfyniad i gymeradwyo'r newid.

54 Anfonir yr adroddiad cyflawn at yr Asiantaeth DMiAU ochr yn ochr â llythyr sy'n amlinellu unrhyw gamau nesaf. Ar ôl derbyn yr adroddiad cyflawn, bydd gan yr Asiantaeth DMiAU gyfnod o **ddeng niwrnod gwaith** i'w adolygu i weld a yw'n ffeithiol gywir a rhoi gwybod i QAA am unrhyw sylwadau neu bryderon.

55 Bydd unrhyw ganlyniadau'n cael eu monitro neu eu gorfodi fel y maent wedi eu nodi yn yr adroddiad. Os gwelir bod yr Asiantaeth DMiAU wedi torri'r Telerau neu'r Amodau ac mae'n achos digon arwyddocaol i warantu rhoi sancsiwn ffurfiol, megis tynnu Trwydded yn ei hôl, bydd Asiantaethau DMiAU fel arfer yn cael cyfnod o 30 diwrnod i gywiro hyn o'r dyddiad y mae'r Asiantaeth DMiAU yn derbyn yr adroddiad, yn ôl cymal 16.1 y Telerau.

# Ymyriadau

## Hysbysiad ffurfiol

56 Hysbysiad ffurfiol yw hysbysiad ysgrifenedig a anfonir at yr Asiantaeth DMiAU gan QAA sy'n nodi'r camau gweithredu y mae gofyn iddi eu cymryd i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiad neu leihau risg o ddiffyg cydymffurfiad â gofynion y Cynllun Cydnabod. Anfonir hysbysiad os bydd QAA o'r farn y bydd y camau gweithredu a gymerir gan yr Asiantaeth DMiAU mewn ymateb i ofynion yr hysbysiad yn mynd i'r afael â risg neu doriad o'r fath yn rhesymol ac na fydd unrhyw ymyriad neu sancsiwn arall yn angenrheidiol bryd hynny.

57 Mae Amod B3 yn nodi bod gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gydymffurfio â gofynion gweithgareddau monitro, yn ôl cyfarwyddyd QAA. Anfonir hysbysiadau ffurfiol at Swyddog Cyfrifol yr Asiantaeth DMiAU sy'n nodi'r canlynol:

- y pryder/pryderon sydd gan QAA mewn perthynas â gofynion ei Chynllun Cydnabod;
- y camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellir;
- os bydd yn berthnasol, unrhyw ofyniad i'r camau gweithredu gael eu cymeradwyo gan QAA cyn eu gweithredu; ac
- amserlen ar gyfer rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith a'r amser penodol, y dull a'r ffordd o adrodd gweithrediad o'r fath i QAA.

58 Cyhoeddir hysbysiad ffurfiol fel arfer yn dilyn ymgysylltiad â'r Asiantaeth DMiAU er mwyn dilysu neu sicrhau rhagor o wybodaeth am bryder. Weithiau gellir cyhoeddi hysbysiad heb ymgysylltiad o flaen llaw, yn enwedig lle gall QAA deimlo'n hyderus bod y Telerau a/neu'r Amodau wedi eu torri. Er enghraifft, pan fydd yn amlwg bod nod masnach Mynediad i AU wedi cael ei gamddefnyddio neu mae gwallau amlwg mewn gwybodaeth sy'n cael ei dal yn gyhoeddus am y Diploma.

59 Bydd hyd y cyfnod o fonitro manylach yn dilyn cyflwyno hysbysiad ffurfiol yn ddibynnol ar natur y risg a'r camau gweithredu a nodwyd ac sydd i gael eu nodi yn yr hysbysiad. Er enghraifft, gallai hysbysiad nodi un cam gweithredu penodol y gall yr Asiantaeth DMiAU fynd i'r afael ag o'n eithaf cyflym. Ar y llaw arall, gallai hysbysiad nodi cynllun gweithredu gyda chyfnodau adrodd dros gyfnod o amser.

60 Unwaith y bydd y camau gweithredu penodol wedi eu cwblhau ac y mae QAA yn sicr bod unrhyw risgiau neu bryderon wedi eu lliniaru'n ddigonol, bydd QAA yn ysgrifennu at yr Asiantaeth DMiAU i gadarnhau hynny.

61 Os bydd Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â hysbysiad ffurfiol, mae hyn yn debygol o arwain at ymyriad arall.

## Amod penodol

62 Amod penodol yw gofyniad parhaus ychwanegol y gellir ei roi ar Asiantaeth DMiAU. Bwriad yr amod penodol fydd lleihau risg penodol a achosir a gallai nodi gweithgareddau penodol y mae QAA yn gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu gwneud neu y mae'n ei gwahardd rhag eu gwneud er mwyn sicrhau bod y Telerau a/neu'r Amodau'n cael eu bodloni. Gellir gosod yr amod penodol:

- pan fydd QAA o'r farn bod yr Asiantaeth DMiAU yn achosi risg penodol nad yw'n derbyn sylw'n llwyr neu'n rhannol yn yr Amodau presennol neu mewn gofynion eraill sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Cydnabod.
- pan ystyrir bod angen gosod camau gweithredu neu ofynion ychwanegol, yn barhaus neu dros gyfnod estynedig o amser, i roi sicrwydd i QAA; neu
- i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiad neu leihau risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â'r Telerau neu'r Amodau.

63 Mewn achosion eithriadol, lle mae pryder digonol am effaith risgiau heb eu lliniaru sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiad â gofynion QAA, gellir gosod amod penodol ochr yn ochr â gwaharddiad y Drwydded neu ataliad y Drwydded dros dro.

64 Gellir codi amod penodol oddi ar Drwydded pan fydd QAA yn fodlon nad oes risg bellach o ddiffyg cydymffurfiad â'r gofynion perthnasol, neu bod y risg wedi ei liniaru'n ddigonol fel na fyddai gofynion ychwanegol yn gymesur mwyach.

65 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â gofynion amod penodol, yn methu lleihau risg o ddiffyg cydymffurfiad yn ddigonol neu'n parhau i fethu cydymffurfio â gofynion QAA, gellir gosod sancsiwn ffurfiol.

## Sancsiwn ffurfiol

66 Pan fydd pob mesur arall o dan drefniadau monitro QAA fel y maent wedi eu nodi uchod wedi methu sicrhau bod yr Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio â gofynion ei Thrwydded, neu os bydd y risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster yn arbennig o arwyddocaol, efallai y bydd QAA yn gweithredu i gyfyngu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU, ei hatal dros dro neu ei thynnu yn ei hôl.

## Rhoi cyfyngiad ar Drwydded

67 Os ystyrir bod hynny'n briodol, ac yn gymesur er mwyn rheoli unrhyw risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster, gallai QAA benderfynu rhoi cyfyngiadau dros dro ar Drwydded yr Asiantaeth DMiAU, fel y nodir yng nghymal 14 y Telerau. Nod cyfyngiad ar Drwydded yr Asiantaeth DMiAU fyddai rhoi cyfyngiad dros dro ar rai ffyrdd penodol y mae'r asiantaeth yn defnyddio'r Diploma yn ei gweithredoedd, a fyddai fel arfer wedi eu caniatáu wrth ddyfarnu Trwydded.

68 Bydd telerau penodol y cyfyngiad wedi eu nodi'n glir mewn ysgrifen i'r Asiantaeth DMiAU, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu y mae gofyn iddi eu cymryd er mwyn dileu'r cyfyngiad, yr amseriadau cwblhau a'r camau monitro nesaf. Er enghraifft, gallai'r mathau o gyfyngiadau gynnwys y canlynol ymysg pethau eraill:

- cofrestru myfyrwyr ar gyfer Diplomâu penodol, ar gyrsiau Mynediad i AU, neu gyda Darparwyr penodol;
- hysbysebu a rhestru cyrsiau newydd ar gronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU;
- cymeradwyo Darparwyr newydd; neu
- ddyfarnu Diplomâu i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar un neu fwy o gyrsiau Mynediad i AU.

69 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â'r cyfyngiad, yn parhau i fethu lleihau unrhyw risgiau a welwyd yn ddigonol neu fethu cydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill sydd wedi eu nodi yn y Telerau neu Amodau ei Thrwydded, gellir ystyried atal y Drwydded yn llawn neu dynnu'r Drwydded yn ei hôl.

## Atal Trwydded

70 Os ystyrir bod hynny'n briodol, ac yn gymesur er mwyn rheoli unrhyw risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster, gallai QAA benderfynu atal Trwydded yr Asiantaeth DMiAU dros dro, fel y nodir yng nghymal 14 y Telerau. Bydd ataliad yn atal yr Asiantaeth DMiAU am gyfnod penodol rhag defnyddio'r Diploma yn ei gwaith mewn ffyrdd y byddai dyfarniad llawn y Drwydded yn ei ganiatáu fel arfer.

71 Gellir atal Trwydded dros dro os bydd QAA o'r farn ei bod hi'n briodol cymryd camau gweithredu a fyddai'n lleihau ar unwaith yr effaith y mae'r diffyg cydymffurfio sy'n achosi pryder yn ei chael ar y myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster. Yn ystod yr ataliad, ni chaniateir i'r Asiantaeth DMiAU ddefnyddio ei Thrwydded Asiantaeth DMiAU, ac mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau a ganlyn:

- Dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU
- Cofrestru myfyrwyr ar gyrsiau Mynediad i AU
- Dyfarnu Diplomâu
- Hysbysebu ei Diplomâu, neu eu hyrwyddo mewn ffordd arall, neu ddefnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU i wneud hynny - ac eithrio ar gyfer y Diplomâu a'r cyrsiau Mynediad i AU sydd wrthi'n rhedeg gyda myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar y pryd at ddibenion gwybodaeth gyhoeddus.

72 Bydd disgwyl i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau unioni ar unwaith yn ystod yr ataliad. Bydd gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau o dan amod penodol y rhoddir gwybod i'r Asiantaeth DMiAU mewn ysgrifen amdanynt, yn cynnwys yr amseriadau disgwyliedig ar gyfer datrys y problemau. Bydd yr ataliad yn cael ei dynnu unwaith y bydd QAA yn fodlon bod y pryderon am gydymffurfiad a'r risgiau cysylltiedig wedi eu lleihau neu eu datrys yn briodol.

73 Dylai'r Asiantaeth DMiAU, gynted ag y bo modd ar ôl cael ei hysbysu am atal ei Thrwydded dros dro, roi gwybod i'w Darparwyr am y ffaith bod ei Thrwydded Asiantaeth DMiAU wedi ei hatal a hyd disgwyliedig yr ataliad. Dylai hefyd roi gwybod i'r myfyrwyr mewn ysgrifen os bydd eu dyfarniad neu eu cynnydd yn debygol o gael eu heffeithio gan ataliad y Drwydded.

74 Byddai QAA yn disgwyl ymgysylltu'n rheolaidd â'r Asiantaeth DMiAU trwy gydol yr ataliad a gweithio gyda'r Asiantaeth DMiAU i sicrhau bod yr ymyriad yn parhau'n gymesur ac yn benodol.

### Tynnu Trwydded yn ei hôl

75 Gallai QAA benderfynu tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl os bydd y risgiau na fydd Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod mor sylweddol fel na fyddai defnyddio unrhyw sancsiwn arall yn ddigonol, neu os nad yw defnyddio sancsiynau eraill wedi bod yn ddigonol i leihau'r risg neu wneud iddi gydymffurfio.

76 Yr unig bryd y bydd QAA yn mynd ati i dynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl fel arfer, yw:

- pan fydd Trwydded yr Asiantaeth DMiAU wedi ei chyfyngu neu ei hatal dros dro, ac nad yw'r Asiantaeth DMiAU wedi gallu diddymu neu fynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau a welwyd o ganlyniad i'r sancsiynau hyn;
- pan oedd Trwydded yr Asiantaeth DMiAU wedi cael ei chyfyngu neu ei hatal dros dro yn y gorffennol, ac mae'r Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio dro ar ôl tro â gofynion penodol neu wahanol ofynion ei Thrwydded; neu
- os yw QAA yn barnu bod yma ddiffyg cydymffurfiad â gofynion y Drwydded sy'n ddifrifol neu'n barhaus i'r graddau na fyddai ymyriadau eraill yn ddigonol i ddatrys hynny.

77 Yn ôl paragraff 16.1 y Telerau, mae QAA yn cadw'r hawl i derfynu'r Drwydded ar unwaith unrhyw bryd, o dan amgylchiadau penodol, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Asiantaeth DMiAU.

78 Mae rhagor o wybodaeth am y broses o dynnu Trwydded yn ei hôl yn y *Trefniadau Trwyddedu Mynediad i AU*.

## Monitro ymyriadau

79 Fel arfer, pan fydd QAA yn defnyddio trefniadau ar gyfer monitro manylach neu ymyriadau, bydd hyn yn cychwyn cyfnod o weithgareddau monitro ac ymgysylltu manylach gyda'r Asiantaeth DMiAU er mwyn sicrhau bod mesurau o'r fath yn lleihau'r risgiau a welwyd yn effeithiol.

80 Gall y ffordd y gwneir hyn amrywio yn ôl yr achos unigol ac yn dibynnu ar asesiad o'r risgiau a welwyd. Bydd y gofynion ar gyfer monitro o'r fath wedi eu cyfathrebu'n glir i'r Asiantaeth DMiAU, mewn ysgrifen, a byddent yn esbonio pa wybodaeth sy'n ofynnol a phryd o dan adran B yr Amodau.

81 Bydd QAA yn cadw gwybodaeth am y trefniadau monitro manylach ar gyfer Asiantaethau DMiAU, yn ogystal ag am unrhyw ymyriadau, cyhyd ag y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dal Trwydded. Dros amser, bydd y wybodaeth hon yn hysbysu golwg gyfannol QAA ar allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio â'r gofynion sydd arni ac i ba raddau y mae dyfarnu Trwydded i Asiantaeth DMiAU yn cynrychioli risg sylweddol i enw da'r cymhwyster, Cynllun Cydnabod QAA, neu QAA ei hun. Gallai QAA ddefnyddio gwybodaeth fonitro i hysbysu asesiadau risg mewn perthynas ag ymyriadau.

82 Hefyd, gellir defnyddio gwybodaeth fonitro i hysbysu asesiadau risg mewn perthynas â cheisiadau am ddyfarnu neu adnewyddu Trwydded. Gallai hyn effeithio ar hyd cyfnod dilysrwydd y Drwydded wedi'i hadnewyddu a hysbysu penderfyniadau i ddyfarnu'r Drwydded, gyda gofynion ychwanegol megis hysbysiad ffurfiol neu amod penodol.

83 Pan fydd QAA yn pryderu'n ddigonol i fwriadu tynnu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl am nad oes modd datrys ei phryderon, tynnir y Drwydded yn ei hôl ar y pwynt hwnnw ac ni ystyrir hyn yn wrthodiad i adnewyddu'r Drwydded. Fodd bynnag, os tynnir Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl ac mae'n dewis gwneud cais am Drwydded newydd, gellir gwrthod y cais hwnnw.

Cyhoeddwyd ar 29 Mai 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk